# Gweithio ag unigolion i reoli eu materion ariannol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi’r gofynion wrth weithio mewn partneriaeth ag unigolion i reoli eu materion ariannol. Mae hyn yn cynnwys gweithio ag unigolion ac eraill i gael gafael ar wybodaeth a chyngor am wasanaethau ariannol, budd-daliadau, lwfansau neu daliadau uniongyrchol a'u cynorthwyo i reoli a monitro eu harian eu hunain.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i gael gafael ar wybodaeth i reoli a monitro eu materion ariannol yn unol â'u dewisiadau a'u hanghenion
2. cefnogi unigolion ac eraill i nodi'r budd-daliadau, y lwfansau neu'r taliadau uniongyrchol y gallent fod â hawl iddynt
3. cefnogi unigolion ac eraill i adolygu a nodi dewisiadau o'r opsiynau sydd ar gael
4. annog unigolion ac eraill i nodi unrhyw bryderon neu risgiau a allai effeithio ar fynediad at wasanaethau ariannol, budd-daliadau, lwfansau neu daliadau uniongyrchol
5. cefnogi unigolion ac eraill i ddarparu'r wybodaeth berthnasol er mwyn cael mynediad at wasanaethau ariannol, budd-daliadau, lwfansau neu daliadau uniongyrchol
6. cefnogi annibyniaeth unigolion i ddefnyddio gwasanaethau ariannol, budd-daliadau, lwfansau neu daliadau uniongyrchol i gwrdd â'u dewisiadau a'u hanghenion
7. annog unigolion ac eraill i roi adborth ar sut mae gwasanaethau ariannol, budd-daliadau, lwfansau neu daliadau uniongyrchol wedi cwrdd â'u hanghenion
8. grymuso unigolion ac eraill i adnabod a mynd i'r afael ag unrhyw newidiadau i gefnogi mynediad at wasanaethau ariannol, budd-daliadau, lwfansau neu daliadau uniongyrchol
9. cwblhau'r cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen i weithio ag unigolion i reoli eu materion ariannol
10. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rôl a'ch cyfrifoldebau i weithio ag unigolion i reoli eu materion ariannol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. dulliau cadw cofnodion a manylion taliadau a derbynebau
2. dulliau cyllidebu sy'n dderbyniol ac yn addas i unigolion
3. dulliau rheoli dyledion a gwneud taliadau
4. dulliau storio arian yn ddiogel sy'n dderbyniol i unigolion ac sy'n dilyn gofynion y gweithle
5. y gwahanol fudd-daliadau, lwfansau neu daliadau uniongyrchol sydd ar gael a sut y gallant gwrdd ag anghenion unigolion
6. sut mae darparu cymorth gydag unrhyw gyfyngiad y gall budd-daliadau, lwfansau neu daliadau uniongyrchol ei osod ar unigolion
7. sut y gellir defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol i gynorthwyo unigolion i reoli eu materion ariannol
8. sut mae adolygu a gwerthuso gwybodaeth am wasanaethau ariannol, budd-daliadau, lwfansau neu daliadau uniongyrchol
9. sut mae cynorthwyo unigolion i ddarparu gwybodaeth berthnasol i gael mynediad at wasanaethau, budd-daliadau, lwfansau neu daliadau uniongyrchol
10. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i annog unigolion i reoli eu materion ariannol
11. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth annog unigolion i reoli eu materion ariannol
12. sut mae cefnogi unigolion i fynegi eu hanghenion a'u dewisiadau mewn perthynas â'u materion ariannol
13. dylanwad diwylliant a chefndir ar sut mae unigolion yn rheoli eu materion ariannol
14. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar y cymorth mae unigolion ei angen i reoli eu materion ariannol
15. sut mae cynorthwyo rheoleiddio emosiynol wrth reoli materion ariannol
16. risgiau i unigolion wrth ddefnyddio gwasanaethau ariannol
17. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen i weithio ag unigolion i reoli eu materion ariannol
18. damcaniaethau sy'n berthnasol i weithio ag unigolion i reoli eu materion ariannol
19. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer gweithio ag unigolion i reoli eu materion ariannol

20. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth weithio ag unigolion i reoli eu materion ariannol
21. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i weithio ag unigolion i reoli eu materion ariannol
22. sut mae ymateb i faterion a phryderon a allai godi wrth gynorthwyo unigolion i reoli eu materion ariannol
23. sut mae eich profiadau personol a’ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth weithio ag unigolion i reoli eu materion ariannol, a sut i fynd i'r afael â hyn
24. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth weithio ag unigolion i reoli eu materion ariannol

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Gweithio ag unigolion i reoli eu materion ariannol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD316 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | rheoli materion ariannol, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |